Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Orffennaf 2025
# Gynhalwyd yng Nghanolfan GLASINFRYN

1. **Presennol: /Present**

   Cyng I Ellis Cadeirydd; Cyng C W Owen Is Gadairydd; Cyng A Joyce; Cyng J griffiths; Cyng J Pierce; Cyng L A James; Cyng M Jones; Cyng G Owen; Cyng D Jones-Morris Cyng B Jones; Cyng E Roberts; S E Jones Cyfieithydd a'r Clerc

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

   Cyng H Griffiths

3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

   Cyng L A James a Cyng A Joyce yn ymddiriedolwyr yng Nghanolfan Penrhos

4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Fehefin / June 2025**

   Derbynwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng L A james ag a eilwyd gan y Cyng J Griffiths

5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

   Cylchfan wrth Ysbyty Gwynedd

   Angen dwyn pwysa ar y Swyddogion Traffig bod angen creosfan ochr Bangor a hefyd ail-osod y bocs blodau ddifrodwyd gan y Cwmni

   Croesfan wrth Ysgol y Faenol

   O ran diogelwch mae'r Cyngor yn awyddus i weld y groesfan yn cael ei lleoli ychydig i gyfeiriad Nant y Mownt o adwy'r ysgol/ganolfan fel na fydd yn bosib rhedeg o'r llwybr yn syth a'r y groesfan. Cafwyd sicrwydd fod y swyddogion wedi cytuno i hynny ag y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn ysdod y gwyliau a chyd-fynd hefo sefydlu y llwybr llesiant yn yr ardal

   Archwilwyr Allannol

   E-bost wedi cyrraedd yn holi am Agenda y Cyngor Llawn yn Ionawr ag wedi ei anfon yn ol at y Swyddfa Archwylio – Ein gwir bryder oedd y ffaith bod cyfeiriad at ein bod wedi gweithredu yn anghyfreithio heb eglurhad o be yn union oedd y weithred dan sylw

   Llwybr Treborth

   Y Clerc wedi derbyn cwyn gan unigolyn/trigolyn ynglyn a chyflwr y llwybr Cyhoeddus ag wedi cysylltu a'r Adran tramwy. Hwythau wedi ei gyfeirio at Adran Stad/Eiddo Cyngor Gwynedd

   Yr Adran eiddo/stad yn honni eu bod mewn trafodaethau gyda'r tirfeddianwr a bod anghydfod rhwng teuluoedd yn ychwanegu at y broblem sy'n bodooli. Mae gorchymun i'w ddatgan ynglyn a chyfreithloni darn o'r trac preifat gyda hawl tramwy cyfreithiol.

   Rhyddhau Gwybodaeth

   Y mater yn parhau yn dilyn cais am wybodaeth pellach.

   Byddwn yn ymateb o fewn y 40 diwrnod yn unol a'r cadarnhad bod ganddom hynny gan swyddfa yr ICO Byddwn yn gofyn i bob cynghorydd os oes ganddynt unrhyw wybodaeth a wnelo a'r llwybr dan sylw a/neu unrhyw wybodaeth yn cyfeirio at y lleoliad ac iddynt gadarnhau yn ysgrifennedig un ffordd neu'r llall

6. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. Mantolen ariannol / Financial report
   Mantolen ariannol ddosbarthwyd yn dangos £23,000.60 yn y Cyfrif Cyfredol a £41,764.03 yn parhau yn y Cyfrif Cadw
   ii. Cofnodion cyfarfod PC / Minutes of F C 24/06/2025
   Eglurodd y Clerc bod costau misol wedi cynnyddu oherwydd bod cynnydd mewn Ysw Gwladol ag felly bod y Cyngor yn talu Ysw Gwladol yn ogystal rwan a Treth Incwm Cynnydd oddeutu £70 y mis
   Mae newid yn y polisia yn golygu na y 5 mlynedd ddwaetha fydd yn ymddangos ar ein gwefan o hyn allan

7. **Cynllunio / Planning**
   C25/0456/25/DT Pendalar. 63 Ffordd Cynan Penrhosgarnedd Bangor Gwynedd LL57 2NS Dymchwel rhan un Rhediad (ystafell aml-bwrpas/toiled) a modurdy ti Fflat ynghyd a chodi estyniad newydd ynghyd a newidiadau **Dim Gwrthwynebiad**

8. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - GwyrddNi
     - Syniadau a'i prisiau

3 prosiect oedd wedi ei ystyried
Pont Glasinfryn – darganfyddwyd drwy ymchwilio bod y bont 7 bwa bellach wedi ei gwarchod a'i chofrestu fel adeilad hynafol a felly mi fyddai yn anodd iawn gwneud unrhyw newidiadauo'i amgylch heb ganiatad. Yr awgrym oedd ein bod yn gallu torri y coed sy'n ei chuddio ag yntau yn adeilad mor hardd
Cyng L A James wedi holi am brisiau creu murluniau yn olrhain hanes y gymuned mewn 3 lleoliad sef y Ganolfan Newydd yn Penrhos y Ganolfan yn Glasinfryn a'r Capel Bach ym Mhentir Byddai eu creu a'i gwarchod yn oddeutu £1200 yr un yn gyfanswm i tua £3,600
Y Clerc yn holi am brisiau i greu Dol o flodau gwyllt yn y Fynwent lle na fydd byth yn bosib claddu meb yna oherwydd fod pibell ddwr yna _ Disgwyl pris
Cytunwyd ar anfon cais am y Murlunio a'r Ddol flodau

- Cais am grant Clerc i gwblhau unwaith ddaw y prisia i mewn
- Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol

Fawr o ddiweddariad ond bydd cyfarfod ymhen rhyw wythnos 18fed o Orffennaf hefo swyddogion Moderneiddio Addysg i drafod y fersiwn derfynnol o'r brydles fydd yn cael ei thrafod gan ein Cyfreithiwr ag adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd cyn cael ei chyflwyno i ni i'w arwyddo os bydd yn cael ei derbyn

- Gweithred Lightsource Deed

Fersiwn derfynnol wedi ei anfon atom ag wedi ei phasio mlaen at ein cyfreithwyr

- Capel y Fynwent

Y llawr Bellach wedi ei gwblha ag angen ystyried ein cam/au nesaf

9. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**
   Cyng James Griffiths Gordyfiant ar lon gefn am Bangor a thyfiant wrth yr hen Reilffordd
   Clerc i adrodd am y gordyfiant sy'n rhannol oherwydd y gwaith sal wnaethpwyd o dorri gwrychoedd haf 2024 Tyfiant wrth yr hen reilffordd, ar dir preifat, a'r Bont wedi ei chofrestru

sydd yn ei gwneud yn anodd i ni fel Cyngor Cymuned wneud fawr arwahan i dynnu sylw at Cadw
**Clerc i gysylltu**

Cyng I Ellis Goleuadau Nadolig

Y goleuadau wedi eu dewis ag archeb wedi ei anfon – Y goleuadau gytunwyd ei bod yn anaddas llynnedd yn dal yn Cwm y Glo er i ni gytuno i dalu y gost am eu dychwelyd

Cyng D Jones-Morris Gwaharddiad ffordd – gobygliadau

Mynegwyd pryder difrifol am y syniad o arall-gyfeirio traffig i Nant y Mownt a throi i'r dde yn sgil cau y ffordd rhwng Cylchfan JLS a Cylchfan Treborth i adeiladu y llwybr llesiant
Awgrymwyd fod Cyngor Gwynedd yn ail ystyried ag anfon POB cerbyd i'r chwith i lawr allt Faenol ag yna yn ol i fyny **Clerc i Gysylltu**

Cyng J Griffiths yn atgoffa pawb y bydd arddangosfa o waith y Grwp Arlunio yng Nghanolfan Glasinfryn Dydd Iau 21ain tan Dydd Sadwrn 23ain o Awst

10. N**ewyddion**

Y newyddion mwyaf am y mis oedd cwblhau llawr y Capel **Clerc i anfon Lluniau i Cyng C W Owen**

Daeth y Cyfarfod i ben **am 9.05**

Diolchwyd i bawb am eu presennoldeb a dymuno haf dedwydd i bawb

**Cyfarfod nesaf Nos Iau 11eg o Fedi yn Glasinfryn**